*Rheoliadau a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 95 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau diddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif (Cy. )

# Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

## Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi sydd i'w chodi ar warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny.

Y gyfradd safonol yw £91.35 y dunnell, y gyfradd is yw £2.90 y dunnell a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £137.00 y dunnell.

Bydd gwarediadau trethadwy a wneir cyn 1 Ebrill 2019 yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a osodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/131 (Cy. 33)) o ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.

*Rheoliadau a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 95 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau diddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif (Cy. )

# Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

## Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Tachwedd 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *26 Tachwedd 2018* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(3) a (6), 46(4) a 94(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2018 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2019.

**Cymhwyso**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â gwarediad trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny.

(**1**) 2017 dccc 3.

### Cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi

**3.** Rhagnodir y cyfraddau a ganlyn yn unol ag adrannau 14(3) a (6), a 46(4) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017—

(a) y gyfradd safonol yw £91.35 y dunnell;

(b) y gyfradd is yw £2.90 y dunnell; ac

(c) y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £137.00 y dunnell.

### Diwygio Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018

**4.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018(**1**), ar ôl "neu ar ôl hynny" mewnosoder "ond cyn 1 Ebrill 2019".

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru
21 Tachwedd 2018

(**1**) O.S. 2018/131 (Cy. 33).